**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Paul Davies AS
Cadeirydd, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru

SeneddEconomi@senedd.cymru

21 Tachwedd 2023

Annwyl Paul,

Diolch am eich llythyr ar 26 Hydref**,** ynghylch y Protocol i Ddiwygio Cytundeb Marrakesh Sefydlu Sefydliad Masnach y Byd (WTO) - Cytundeb ar Gymorthdaliadau i Bysgodfeydd (y Cytundeb).

Mae potensial gan Gytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Gymorthdaliadau i Bysgodfeydd i leihau achosion o orbysgota, a physgota anghyfreithlon ac anrheoleiddiedig nas hysbysir amdano (IUU) ar lefel byd-eang. Cyn belled â bod Llywodraeth y DU yn gweithredu yn rhesymol ac ar y cyd, nid wyf yn credu y bydd telerau'r Cytundeb yn cyfyngu'n ormodol ar allu Llywodraeth Cymru i gefnogi'r diwydiant pysgota môr yng Nghymru.

Ychydig o drafod a fu gan swyddogion Llywodraeth y DU a swyddogion Llywodraeth Cymru cyn i'r Cytundeb gael ei gymeradwyo yng Nghynhadledd Weinidogol Sefydliad Masnach y Byd ym mis Mehefin 2022.

Prif ofynion y Cytundeb newydd yw ymatal rhag darparu cymorthdaliadau i weithredwyr cychod pysgota dalfeydd gwyllt mewn rhai amgylchiadau a gwell adroddiadau ar dryloywder cymorthdaliadau yn unol â'r trefniadau presennol o dan Gytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Gymorthdaliadau a Mesurau Gwrthbwysol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

O drafodaethau ar lefel swyddogol, rwy'n disgwyl y gellir addasu cynlluniau cymorth ariannol presennol, gweithdrefnau monitro rheoli a gorfodi a rhannu data er mwyn gweithredu'r Cytundeb yng Nghymru. Nid oes disgwyl i'r ddeddfwriaeth fod yn angenrheidiol. Fodd bynnag, bydd hyn yn parhau i gael ei adolygu tra bod y camau ymarferol i weithredu'r Cytundeb ar draws awdurdodaethau'r DU yn cael eu datblygu a'u trafod gyda Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig.

Yn gywir,



**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**